# Polisi Gweithredu'n Foesol

**Ein Hymrwymiad Moesegol**
Mae Sefydliad Cymunedol Cymru (y Sefydliad) yma i gryfhau cymunedau yng Nghymru. Trwy ein gwaith, rydym yn annog ein staff, ein hymddiriedolwyr a'n cefnogwyr i ymgysylltu mewn ffordd foesegol a chyfrifol o weithio.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'n harferion busnes cyffredinol, ac yn benodol y ffordd rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner a chefnogwyr. Drwy'r polisi cyfan ceir ymrwymiad i weithio gyda sefydliadau Cymreig ac i gefnogi cymunedau lleol, yn ogystal â busnesau a chyflenwyr lleol.

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn ar gael i'r cyhoedd drwy ein gwefan, yn ei adolygu o leiaf unwaith bob dwy flynedd, ac yn ei ddiweddaru yn ôl yr angen. Mae'r ddogfen bolisi hon yn cyd-fodoli â'n Strategaeth Buddsoddi'n Foesol.

Rydym yn chwilio'n am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid allanol er mwyn cyflawni amcanion ar y cyd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ein hannibyniaeth ac nad ydym yn caniatáu i bartneriaethau allanol ddwyn anfri ar enw'r Sefydliad.

Felly, cyn belled ag y bo'n ymarferol ac o fewn cyfyngiadau cyfraith y DU:
- Byddwn ond yn ymgysylltu â mentrau nad ydynt yn peryglu ein statws annibynnol
- Byddwn yn sicrhau bod gweithgareddau'r unigolion a'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw yn gyson â gwerthoedd ein sefydliad

**Meini prawf osgoi**
Byddwn yn osgoi partneriaethau â chwmnïau sydd â chysylltiad uniongyrchol ag unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol:

- Gweithgynhyrchu tybaco
- Gweithgynhyrchu systemau arfau niwclear ac arfau
- Hapchwarae
- Pornograffi

Efallai y bydd yna feysydd busnes ychwanegol o bryd i'w gilydd, y gall yr Ymddiriedolwyr deimlo y dylent ddod o dan y meini prawf osgoi, er enghraifft os daw gweithgaredd busnes yn hynod ddadleuol. Dylid penderfynu ar y materion hyn fesul achos.

**Marchnata a chymeradwyaeth**
Nid yw'r Sefydliad yn cymeradwyo nac yn cefnogi cynhyrchion na chwmnïau. Er mwyn sicrhau bod unrhyw hyrwyddo sy'n gysylltiedig ag achos yn adlewyrchu ein gwerthoedd, rhaid i bob deunydd gael ei gymeradwyo gan ein Tîm Rheoli Uwch (SMT).

**Rhoddion**
Mae dyletswyddau cyfreithiol ein hymddiriedolwyr yn cynnwys penderfynu a ddylid derbyn neu wrthod rhoddion. Mae'r gyfraith yn caniatáu ystyried ffactorau ymarferol a moesegol, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r elusen a'r sefyllfa benodol.
Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff rhoddion i'r Sefydliad eu gwrthod, pan:

- Byddai'n anghyfreithlon derbyn y rhodd (er enghraifft, os yw'r sefydliad yn gwybod bod y rhodd yn cynnwys enillion trosedd); neu
- Byddai derbyn y rhodd yn niweidiol i gyflawni ein dibenion, fel y nodir yn ein cyfansoddiad. Dylid pwyso a mesur hyn yn erbyn y budd o dderbyn y cyllid gan y rhoddwr, a fyddai'n galluogi'r Sefydliad i gyflawni ei ddibenion. Er enghraifft, gallai fod yn amlwg y byddai derbyn rhodd yn debygol o arwain at:

- Colli rhoddion gan gefnogwyr neu gyllidwyr eraill sydd, dros y tymor hir, o leiaf yr un gwerth â'r rhodd
- Colli gwirfoddolwyr y byddai eu gwasanaeth o leiaf yr un mor werthfawr â'r rhodd
- Colli staff neu anallu i recriwtio staff

Dylai gwneud y penderfyniad hwn gynnwys dadansoddiad gofalus o'r risgiau o dderbyn rhodd, gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn y budd a geir. Dylid penderfynu ar y materion hyn fesul achos.

**Prynu**
Byddwn yn ceisio, lle bo'n rhesymol ac yn bosibl, brynu nwyddau a gwasanaethau gan ddarparwyr a chyflenwyr Cymreig, sydd wedi'u cynhyrchu a'u darparu o dan amodau nad ydynt yn cynnwys camdriniaeth nac ecsbloetio unrhyw unigolion:

- Ni ddefnyddir llafur plant
- Telir cyflogau byw
- Nid yw oriau gwaith yn ormodol
- Ni chaniateir unrhyw wahaniaethu

Disgwyliwn i gyflenwyr gymryd cyfrifoldeb am yr amodau llafur ac amgylcheddol y caiff cynhyrchion eu gwneud a gwasanaethau eu darparu oddi tanynt, ac i gyflwyno datganiad ysgrifenedig o fwriad ynghylch polisi'r cwmni.

**Proses**

Rhaid i bob nawdd marchnata a noddi sy'n gysylltiedig ag achos, ac sydd â gwerth o fwy na £20,000 gael ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Rhaid i gontractau gyda phartneriaid ganiatáu inni dynnu'n ôl o unrhyw bartneriaeth lle mae datblygiadau newydd yn golygu bod elfennau o'r polisi moesegol hwn yn cael eu torri.

**Tryloywder**

Bydd rhestr lawn o noddwyr corfforaethol sy'n rhoi dros £10,000 yn cael ei nodi ar ein gwefan.